**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**14 TACHWEDD 2017**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Derek Butler, Clive Carver, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Helen Brown, Geoff Collett, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Richard Jones, Tudor Jones, Richard Lloyd, Ralph Small, Owen Thomas a Martin White

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol); Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd; a'r Parch. Maureen Roberts ar gyfer gweddïau

Ar ôl y gweddïau, gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol ymuno ag o mewn munud o dawelwch er cof am y diweddar Carl Sergeant AC.

Croesawyd yr Aelod newydd-etholedig dros Fwcle Gorllewin Bistre, y Cynghorydd Andy Williams, i'w gyfarfod Cyngor Sir cyntaf.

## 57. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar Eitem 7 ar y Rhaglen, Cam 1 Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19, datganodd y Cynghorydd McGuill gysylltiad personol ar ôl ei sylwadau ar ardrethi busnes ar gyfer elusennau, oherwydd bod aelodau o'i theulu yn sefydliad y Sgowtiaid.

## 58. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

**59. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

**60. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**61. RHYBUDD O GYNNIG**

Derbyniwyd dau Rybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Aaron Shotton:

(i) Gwneud trefniadau trosiannol teg ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth i ferched a aned yn y 1950au.

'Gorfodwyd newidiadau sylweddol i'w pensiynau ar gannoedd o filoedd o ferched gan Ddeddf Pensiynau 1995 a 2011 heb fawr neu ddim rhybudd personol ynglŷn â'r newidiadau. Cafodd rhai merched lai na dwy flynedd o rybudd am gynnydd o chwe blynedd i oed Pensiwn y Wladwriaeth. Mae rhai merched heb gael eu rhybuddio o gwbl.

Mae nifer o ferched a aned yn y 1950au yn byw mewn caledi. Mae cynlluniau ymddeol wedi'u chwalu, gyda goblygiadau dinistriol. Mae nifer o'r merched hyn eisoes allan o'r farchnad lafur, yn gofalu am berthnasau hŷn, yn gofalu am wyrion ac wyresau, neu'n dioddef o wahaniaethu yn y gweithle ac felly'n ei chael yn anodd dod o hyd i waith.

Mae merched a aned yn y degawd hwn yn dioddef yn ariannol. Maent wedi gweithio'n galed, wedi magu teuluoedd a thalu eu trethi a'u hyswiriant gwladol gan ddisgwyl y byddant yn ddiogel yn ariannol ar ôl cyrraedd 60 oed. Nid yr oedran pensiwn ei hun yw pwnc y ddadl, ond bod y cynnydd yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i'r merched wedi bod yn rhy sydyn ac wedi digwydd heb fawr o rybudd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio, gan eu gadael heb ddigon o amser i wneud trefniadau eraill.

Penderfyniad:
Bod y Cyngor hwn yn cydnabod ac yn cefnogi Grŵp WASPI (Merched yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth) Sir y Fflint ac ein bod ni, fel Cyngor, yn penderfynu gweithredu i alw ar y Llywodraeth i wneud trefniadau trosiannol teg o ran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer yr holl ferched a aned yn y 1950au sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i oed Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi ysgwyddo baich y cynnydd i'r oedran hwnnw yn annheg, heb ddigon o rybudd.'

Wrth gefnogi'r Cynnig hwn, gobeithiai'r Cynghorydd Shotton y byddai pawb yn cydnabod annhegwch y mater hwn a rhoddodd enghreifftiau o'r gofid personol a achoswyd i unigolion lleol. Galwodd ar y Cyngor i gefnogi ymgyrch genedlaethol WASPI, a

oedd yn cynnwys grŵp gweithredu lleol, ac roedd rhai o'i aelodau'n bresennol.

Wrth eilio’r Cynnig, rhoddodd y Cynghorydd Kevin Hughes wybodaeth gefndir am ymgyrch WASPI. Pwysleisiodd mai ffocws yr ymgyrch oedd y cynnydd sydyn yn oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched, lle'r oedd newidiadau a orfodwyd yn ddirybudd wedi gadael nifer mewn caledi a heb allu cynllunio i ymddeol.

Hefyd yn siarad o blaid y Cynnig oedd y Cynghorwyr Mike Peers, Rita Johnson a Paul Shotton.

Pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid y Cynnig.

(ii) Diwedd ar Galedi Ariannol Llywodraeth y DU

‘Mae’r Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i roi diwedd ar bolisi Llywodraeth y DU o galedi ariannol yn ei gyllideb, sydd i gael ei chyflwyno ger bron y Senedd ar 22 Tachwedd. Mae’r Cyngor hwn yn credu bod caledi ariannol, ar ôl saith mlynedd ohono fel strategaeth wleidyddol ac economaidd, wedi’i wrthbrofi’n llwyr a’i fod wedi gwneud niwed aruthrol i’n gwasanaethau cyhoeddus a’n cymunedau ar draws Sir y Fflint a’r DU.

Mae’r Cyngor yn credu na all y sector cyhoeddus yn Sir y Fflint nac ar draws y DU bellach oddef y gostyngiadau sylweddol i gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, sydd gyfwerth â swm anhygoel o £1.2 biliwn.

Mae’n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu’r lefelau cyllid y mae eu hangen i ateb y galw cynyddol am wasanaethau.

Mae’r Cyngor hwn yn cytuno i:

- Barhau i ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleu’r angen am ddiwedd ar galedi ariannol.
- Parhau i fod yn agored am faint yr heriau ariannol y mae’r Cyngor yn eu hwynebu yn y tymor byr a chanolig os nad yw'r caledi ariannol yn dod i ben, a’r niwed y gallai hyn ei wneud i’n cymunedau a’n gwasanaethau lleol.
- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddiwedd ar galedi ariannol ac i gyllid teg gael ei roi i Gymru, yn enwedig i alluogi'r Cyngor i ddiwallu'r angen a’r pwysau cynyddol o ran Addysg a Gofal Cymdeithasol.’

Dywedodd y Cynghorydd Shotton bod digwyddiadau ymgysylltu â’r cyhoedd a oedd yn cael eu cynnal ar draws y sir i bwysleisio effaith toriadau i gyllid yn ennyn llawer o gefnogaeth i newidiadau gael eu gwneud ar lefel Llywodraeth y DU.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

Gwnaeth y Cynghorydd Peers sylwadau ar ymagwedd y Cyngor yn y gorffennol. Dywedodd, gan fod Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gydnabod fel cyngor cyllid isel yng Nghymru, y dylid crybwyll Llywodraeth Cymru a'i chyfrifoldebau o ran y sefyllfa ariannol bresennol.

Cefnogodd y Cynghorydd Heesom y Cynnig ond fe gododd nifer o bryderon ynglŷn ag effaith darparu gwasanaethau drwy gyflenwyr allanol, darparu gwasanaethau teg a chraffu rhagarweiniol ar faterion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan obeithio y byddai hyn yn cael ei drafod yn rhan o gam nesaf y broses o bennu'r gyllideb.

Fel Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, cyfeiriodd y Cynghorydd Thomas at yr arbedion sylweddol a wnaed o fewn ei phortffolio ac fe ganmolodd y timau a oedd ynghlwm â chynnal gwasanaethau rheng flaen. Wrth gefnogi'r Cynnig a diwedd ar galedi ariannol yn gryf, mynegodd bryderon ynglŷn â'r effaith ar y gweithlu a thrigolion a'r diffyg cefnogaeth ariannol i ddarparu gwasanaethau hanfodol i fodloni rhwymedigaethau statudol.

Hefyd yn cefnogi, dywedodd y Cynghorydd Bithell bod Llywodraeth y DU mewn lle i ddarparu cyllid i Lywodraeth Cymru y mae ei angen i fuddsoddi a chynnal gwasanaethau hanfodol.

Nid oedd y Cynghorydd Woolley yn gallu cefnogi'r Cynnig ac fe wnaeth sylwadau ar effeithiau cydnabyddedig caledi ariannol ar yr economi ac effaith benthyciadau a gwariant blaenorol. Teimlai na ellid datrys y sefyllfa ariannol heb atebion cadarnhaol eraill, ac nid oedd tystiolaeth o hynny.

Gwnaeth y Cynghorydd Carver sylwadau ar Lywodraeth Cymru'n brigdorri cyllid i ariannu prosiectau diangen. Cynigiodd addasiad i drydydd pwynt bwled y Cynnig fel a ganlyn: “Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am roi diwedd ar galedi ariannol ac i Brif Weinidog Cymru i gyllid gael ei rannu'n deg yng Nghymru."

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Axworthy.

Gofynnodd y Cynghorydd Attridge am gofnodi'r bleidlais ar y Cynnig sylweddol ac fe gefnogodd y nifer ofynnol o Aelodau hynny.

O'i roi i'r bleidlais, gwrthodwyd yr addasiad gan y Cynghorydd Carver.

Yn ei hawl i ymateb, dywedodd y Cynghorydd Shotton bod y Cyngor wedi cyrraedd "pwynt tyngedfennol" ym mhroses y gyllideb. Er bod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n rhan o'r eitem nesaf ar y rhaglen, roedd y Cynnig yn ymwneud â chydnabod a chefnogi'r galw am newid polisi cyllidol y DU.

Pleidleisiwyd o blaid y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn:

**O blaid y Cynnig:**
Y Cynghorwyr: Brian Lloyd, Paul Cunningham, Bernie Attridge, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams a David Wisinger

**Yn erbyn y Cynnig:**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Clive Carver, Bob Connah, Rob Davies, Veronica Gay, Andrew Holgate, Dennis Hutchinson, Dave Mackie, Mike Peers ac Arnold Woolley

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Aaron Shotton yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: ‘Bod y Cyngor hwn yn cydnabod ac yn cefnogi Grŵp WASPI (Merched yn Erbyn Anghydraddoldeb Pensiwn y Wladwriaeth) Sir y Fflint ac ein bod ni, fel Cyngor, yn penderfynu gweithredu i alw ar y Llywodraeth i wneud trefniadau trosiannol teg o ran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer yr holl ferched a aned yn y 1950au sy’n cael eu heffeithio gan newidiadau i oed Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd wedi ysgwyddo baich y cynnydd i'r oedran hwnnw yn annheg, heb ddigon o rybudd’; a

(b) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Aaron Shotton yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: ‘Mae’r Cyngor hwn yn galw ar Ganghellor y Trysorlys i roi diwedd ar bolisi Llywodraeth y DU o galedi ariannol yn ei gyllideb, sydd i gael ei chyflwyno ger bron y Senedd ar 22 Tachwedd. Mae’r Cyngor hwn yn credu bod caledi ariannol, ar ôl saith mlynedd ohono fel strategaeth wleidyddol ac economaidd, wedi’i wrthbrofi’n llwyr a’i fod wedi gwneud niwed aruthrol i’n gwasanaethau cyhoeddus a’n cymunedau ar draws Sir y Fflint a’r DU. Mae’r Cyngor yn credu na all y sector cyhoeddus yn Sir y Fflint nac ar draws y DU bellach oddef y gostyngiadau sylweddol i gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng 7% mewn termau real ers 2010, sydd gyfwerth â swm anhygoel o £1.2 biliwn. Mae’n bryd i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu’r lefelau cyllid y mae eu hangen i ateb y galw cynyddol am wasanaethau. Mae’r Cyngor hwn yn cytuno i:

- Barhau i ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf i gyfleu’r angen am ddiwedd ar galedi ariannol.
- Parhau i fod yn agored am faint yr heriau ariannol y mae’r Cyngor yn eu hwynebu yn y tymor byr a chanolig os nad yw'r caledi ariannol yn dod i ben, a’r niwed y gallai hyn ei wneud i’n cymunedau a’n gwasanaethau lleol.

- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddiwedd ar galedi ariannol ac i gyllid teg gael ei roi i Gymru, yn enwedig i alluogi'r Cyngor i ddiwallu'r angen a'r pwysau cynyddol o ran Addysg a Gofal Cymdeithasol.'

## 62. <u>CAM UN CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2018/19</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Rheolwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad ar ragolygon Cyllideb Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19 yn dilyn Setliad Llywodraeth Leol Cymru Dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceisiwyd barn yr Aelodau ar ymateb i'r Llywodraeth ac i gynigion cynlluniau busnes portffolio'r Cyngor a gyflwynwyd i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

Ymysg deilliannau allweddol y cyhoeddiad, dywedwyd bod nifer o grantiau penodol bellach wedi'u cynnwys yn y Setliad ac roedd effaith cyfrifoldeb newydd dros atal digartrefedd yn cael ei hasesu, ond nid oedd cyllid sylfaenol ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer hyn. Roedd gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r Setliad Dros Dro'n amlygu gostyngiad yn y Grant Gwella Addysg a Grant Sengl yr Amgylchedd fel meysydd pryder. Roedd yr effaith gyffredinol wedi cynyddu'r bwlch a ragwelwyd yn flaenorol o £11.7 miliwn i £13.6 miliwn a gallai gael ei effeithio ymhellach gan orwariant o £1.1 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor yn 2017/18.

Roedd dewisiadau cynlluniau busnes y portffolio a oedd werth £3.1 miliwn wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet a'u hadolygu gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau. Y prif bwnc o ddiddordeb i'r cyhoedd oedd y cynnig i ddechrau codi tâl am gasglu gwastraff o'r ardd, nad oedd yn un o wasanaethau statudol y Cyngor. Roedd manylion ar gael yn yr adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a oedd ar ddod. Roedd datganiadau gwytnwch ar gyfer pob portffolio'n dangos bod y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth ar lefel risg Felyn, a oedd yn adlewyrchu'r risg o fethiant cyn cyrraedd Cam 2 yn y broses.

Nodwyd amserlen ar gyfer proses y gyllideb er mwyn galluogi'r Cyngor i gymeradwyo cyllideb gytbwys i gyflawni ei ddyletswydd statudol. Byddai mwy o ddewisiadau heriol ar gyfer Cam 2 am gyfanswm o tua £6-8 miliwn yn cael eu hystyried gan Aelodau mewn gweithdy anffurfiol cyn ceisio cymeradwyaeth yn y cyfarfod nesaf, er mwyn caniatáu gweithredu a chanolbwyntio'n gynnar ar ddewisiadau sy'n weddill ar gyfer Cam 3 yn y Flwyddyn Newydd.

Er bod rhai sylwadau anffurfiol eisoes wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar y Setliad Dros Dro, gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar ymateb corfforaethol yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain dros fwy o gyllid i ddiwallu anghenion llywodraethau lleol i ddiogelu gwasanaethau, fel oedd yn wir ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. I atgoffa'r Aelodau am y sylwadau a wnaed i Lywodraeth Cymru, dosbarthwyd copïau o lythyr a anfonwyd at Mark Drakeford AC a oedd yn amlygu'r effaith yn genedlaethol, pa mor bwysig oedd gwneud achos ar y cyd a'r angen i Sir y Fflint dderbyn digon o gyllid i ddarparu'r gwasanaethau gorfodol.

Ymateb drafft i'r Setliad Dros Dro

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau gefnogi'r ymateb drafft canlynol i Lywodraeth Cymru, a oedd yn deillio o wybodaeth o drafodaethau drwy gydol proses y gyllideb:

Bod:

- y Setliad yn annigonol ar gyfer anghenion y Cyngor;
- y Cyngor yn ailgefnogi'r achos a wnaed ar 22 Awst fel y nodir yn y llythyr at Mark Drakeford AC;
- y Cyngor yn cefnogi'r tri chais penodol sydd dan ystyriaeth yng Ngham 2 – cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y tair blynedd nesaf, y cap gofal cartref o £100 yr wythnos a 50% o Ardoll Prentisiaethau a delir gan y Cyngor i gael ei ddychwelyd i gynnal y cynllun cyfredol;
- y gostyngiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddarach i grantiau penodol – Grant Gwella Addysg a Grant Sengl yr Amgylchedd – yn cael ei wrthdroi gan Lywodraeth Cymru, beth bynnag fo Setliad y DU;
- angen cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol gyfan yn unol ag achos CLlLC a Sir y Fflint a wnaed yn y llythyr at Lywodraeth Cymru;
- Sir y Fflint mewn perygl penodol oherwydd ei sylfaen cyllid isel fel y mae'r set o ddatganiadau gwytnwch yn ei ddangos;
- gwahoddiad i Weinidogion ac uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod â Sir y Fflint ar frys i adolygu ein hachos arbennig – i'w hwyluso gan CLlLC;
- achos cryf ar sail tystiolaeth yn cael ei wneud ar gyfer Sir y Fflint fel Cyngor sy'n perfformio'n dda ac sydd â chyfrifoldebau cymdeithasol, os na roddir cyllid ychwanegol i lywodraeth leol ar lefel ddigonol ar gyfer Sir y Fflint o dan y fformiwla rannu, i gael pecyn cyllid ychwanegol penodol i gynorthwyo i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19 oherwydd y risgiau i wasanaethau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am gyfrannu tuag at yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â chymhlethdodau'r sefyllfa ariannol a chyfleu pwysigrwydd y mater i'r cyhoedd. Roedd digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal ar draws y sir wedi'u croesawu er nad oedd llawer wedi dod iddynt. Wrth ymateb i gynghorwyr a swyddogion a ofynnai beth y gallent hwy eu hunain ei wneud i gefnogi achos y Cyngor am gyllid teg a digonol, gofynnodd am ofal wrth ymgyrchu. Er bod cychwyn/cefnogi ymgyrchoedd a deisebau lleol yn un ffordd o helpu, os oedd yr ymgyrch neu'r ddeiseb yn unol â safbwynt y Cyngor, yna fe ddylai cydweithwyr (gan gynnwys swyddogion) fod â hawl i wneud penderfyniad personol ar gynnig eu cefnogaeth. Roedd eu cefnogaeth nhw i neges yr ymgyrch ac nid, o reidrwydd, i'r un a'i cychwynnodd. Felly, os oedd yr un a gychwynnodd yr ymgyrch yn blaid wleidyddol neu'n undeb llafur, er enghraifft, lle'r oedd cefnogaeth i'r ymgyrch yn unig, ni ddylid ystyried hyn fel cefnogaeth i'r blaid neu'r undeb. Roedd yn bwysig bod y gwahaniaeth hwn yn amlwg wrth ymgyrchu i warchod didueddrwydd - yn enwedig ar gyfer swyddogion.

Wrth gynnig yr argymhellion a wnaed gan y Prif Weithredwr, soniodd y Cynghorydd Aaron Shotton am fod yn unol ag amcanion Cynllun y Cyngor a'r heriau wrth ddod o hyd i gynigion i fantoli'r gyllideb. Er bod pob ymgais yn cael ei gwneud i ddiogelu gwasanaethau, roedd yn anorfod y byddai'r pwysau'n arwain at effeithiau go iawn.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom ei fod yn cefnogi'r cynigion Cam 1 ar amod, ond fe gododd bryderon cryf ynglŷn â rhagolygon Cam 2 ac effaith unrhyw gynnydd arall ym mwlch y gyllideb. Dywedodd nad oedd adnoddau'n cael eu rhannu'n gyfartal ac nad oedd effaith elfennau cynlluniau strwythurol ar gymunedau, a oedd wedi'i chodi yn y gorffennol, wedi'i chydnabod eto. Teimlai bod problemau difrifol yn y datganiadau gwytnwch nad oedd y broses Trosolwg a Chraffu wedi cyfeirio atynt yn ddigonol, er enghraifft, buddsoddi ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac ysgolion bach gwledig.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi adolygu eu rhaglenni gwaith eu hunain a oedd wedi'u galluogi i gymryd rôl weithredol ar faterion o fewn eu cylch gwaith, er enghraifft, yr eitem ar daliadau gwastraff gardd. Mewn ymateb i sylwadau eraill gan y Cynghorydd Heesom, eglurodd y byddai'r Cyngor yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf helaeth o'i wasanaethau presennol yn uniongyrchol, os oedd eu perfformiad a'u gwerth am arian yn parhau.

Rhoddwyd eglurhad i'r Cynghorydd Peers ar y Strategaeth Wastraff ac ar ailstrwythuro timau yn y Gwasanaethau Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol a Dylunio a Rheoli Prosiectau. O ran yr awgrym i uno Newid Sefydliadol yn un portffolio i arbed arian, amlygwyd pa mor bwysig oedd cadw'r ddau fel prosiectau gwaith ar wahân i gefnogi'r strategaethau digidol ac adeiladu.

O ran Sir y Fflint yn Cysylltu, darparodd y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) fanylion cynlluniau i ailbenodi swyddi ac adolygu oriau agor, yn enwedig yn yr Wyddgrug ac ym Mwcle fel y cyfleusterau a oedd yn denu'r nifer leiaf o ymwelwyr, i arbed arian.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid) y byddai'r cynnig i ostwng cyllid y Cyngor ar gyfer darpariaeth addysg feithrin i'r lleiafswm statudol yn arbed ychydig iawn o arian ac yn rhoi pwysau costau ar ysgolion.

Cododd y Cynghorydd McGuill bryderon ynglŷn ag effaith ardrethi busnes o 20% a godwyd ar elusennau a grwpiau fel sefydliad y Sgowtiaid, a allai hefyd effeithio ar grwpiau sydd â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol. Er bod y Prif Weithredwr yn rhannu'r pryderon, dywedodd y byddai'n bwysau arall ar gyllideb y Cyngor pe bai gofyn i'r Cyngor gwrdd â'r gost hon. Roedd cronfa galedi ar gael i helpu ag achosion penodol.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Carver, darparodd y Prif Swyddog (Cymunedau a Menter) wybodaeth ar ddewisiadau a oedd yn cael eu datblygu ar gyfer 2019/2020 i gynnig ystod ehangach o wasanaethau yn rhan o'r Gwasanaeth Cofrestru.

Cymeradwywyd yr argymhellion wrth bleidleisio arnynt.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai copi o'r ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet yn cael ei rannu gydag Aelodau, ynghyd â'r ymateb i lythyr blaenorol y Cyngor (22 Awst).

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi manylion y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro a'r effaith ar ragolygon y gyllideb ar gyfer 2018/19;

(b) Cymeradwyo cynigion Cam 1 ar gyfer y gyllideb fel y maent yn Atodiad A;

(c) Nodi'r camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlen; a

(d) Chymeradwyo'r dull o ymgynghori ar y Setliad Dros Dro yn unol â'r ymateb amlinellol i Lywodraeth Cymru a awgrymwyd yn y cyflwyniad.

## 63. ADOLYGIAD 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i geisio barn ar y cynigion diwygiedig a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar adolygiad 2018 o Etholaethau Seneddol y Fflint a Rhuddlan ac Alun a Glannau Dyfrdwy.

Cefnogodd y Cynghorydd Peers yr adroddiad ac fe amlygodd wall yn y geiriad ar gyfer Alun a Glannau Dyfrdwy yn adran 3.3. yn adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol.

Codwyd pryderon gan y Cynghorydd Bithell am effaith yr adolygiad ar Gymru.

O ran enwi etholaethau, gofynnodd y Cynghorydd Neville Phillips a allai'r Cyngor wneud sylwadau i Alun a Glannau Dyfrdwy gael ei newid i Ddwyrain Sir y Fflint. Ar ôl derbyn cyngor gan swyddog, cynigiwyd ac eiliwyd hyn fel gwelliant.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans a ellid gwneud cais o'r fath ar y cam hwn yn y broses. Dywedodd y Prif Weithredwr y gellid ei gyflwyno ar y sail ei fod yn haws ei adnabod nag Alun a Glannau Dyfrdwy, er bod y cais yn hwyr.

O'i roi i'r bleidlais, derbyniwyd y gwelliant.

Cynigiwyd argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Bithell ac fe gawsant eu heilio. Cymeradwywyd yr argymhellion wrth bleidleisio arnynt.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylid ymateb yn ffurfiol i geisio newid yr enw Alun a Glannau Dyfrdwy i Ddwyrain Sir y Fflint;

(b) Nodi'r cynigion diwygiedig a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar adolygiad 2018 o Etholaethau Seneddol y Fflint a Rhuddlan ac Alun a Glannau Dyfrdwy; ac

(b) Awdurdodi’r Prif Weithredwr i ymateb ar ran y Cyngor.

**64. CANLLAWIAU ADOLYGIADAU CYMUNEDAU AC YMGYNGHORIAD Y COMISIWN FFINIAU AR ADOLYGIADAU CYMUNEDAU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn ceisio barn ar ganllawiau drafft wedi’u diweddaru ar gynnal adolygiadau cymunedau gan brif gynghorau a oedd wedi’u llunio gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y canfyddiadau allweddol o'r canllawiau a’r broses ymgynghori a ddeuai i ben ar 21 Rhagfyr 2017. Rhannwyd manylion ar yr adolygiad cymunedau a gynhaliwyd yn Sir y Fflint yn 2013.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd cynigion a argymhellwyd yn flaenorol gan gynghorau tref/cymuned, a fyddai wedi golygu gwahanol ffiniau ar lefel trefi/cymunedau a wardiau, wedi’u gweithredu’n rhan o adolygiad cymunedau diweddaraf y Cyngor Sir. Roedd y cynigion hyn wedi'u hanfon ymlaen at y Comisiwn Ffiniau gyda chais iddynt gael eu hystyried yn rhan o adolygiad ffiniau wardiau’r Cyngor Sir yn hwyr yn 2018.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r sylwadau ar y ddogfen ganllawiau ar gyfer prif gynghorau ar adolygiad cymunedau; ac

(b) Awdurdodi’r Prif Weithredwr i ymateb ar ran y Cyngor.

**65. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2016/17**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 i roi sicrwydd bod y swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn cyflawni ei rôl gyfansoddiadol. Roedd mân newidiadau wedi’u gwneud i’r adroddiad ar ôl iddo gael ei ystyried gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys rhagair yn deyrnged i’r diweddar Gynghorydd Ron Hampson.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at faterion o ran capasiti a oedd wedi’u crybwyll mewn adroddiad archwilio a gofynnodd a ellid ystyried cefnogaeth weinyddol ychwanegol ar gyfer Trosolwg a Chraffu i gynorthwyo Aelodau.

Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i wirio dyddiadau aelodaeth y pwyllgor a oedd wedi’u cwestiynu gan y Cynghorydd Bithell yn gynharach.

Holodd y Cynghorydd Peers ynglŷn â chanlyniad grwpiau trafod diweddar rhwng Aelodau a chydweithwyr o Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y Prif Weithredwr yn credu y byddai adroddiad ar ganfyddiadau’r ymarfer cenedlaethol hwn yn debygol o gael ei gyhoeddi ac y byddai adborth yn cael ei rannu gydag Aelodau pan fyddai'r gwaith ar ben.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2016/17.

## 66. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg a thri aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.05pm)

..................................................

**Cadeirydd**